

## **A.ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT**

Mae'r cynigion a nodir yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 7 - Diogelu plant rhag Camfanteisio Rhywiol' yn cael eu cyhoeddi o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda'r bwriad o atal cam-drin plant, amddiffyn plant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin yn rhywiol a chefnogi plant sy'n cael eu cam-drin yn eu hadferiad. Yn hynny o beth, bwriedir iddynt hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n profi canlyniadau llesiant gwael o ganlyniad i gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu oherwydd eu bod yn agored i risg o gamdriniaeth o'r fath.

Mae'r cynigion hefyd yn nodi'r angen am ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n ystyried natur gydgysylltiedig niwed i blant. Mae'r canllawiau'n nodi'r berthynas rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio'n droseddol ar blant, masnachu plant a mynd ar goll o gartref neu ofal. Mae tystiolaeth yn dangos bod y dull ymarfer a hyrwyddir yn y canllawiau yn effeithiol o ran diogelu plant a hybu llesiant ar draws y meysydd risg hyn i blant. Bwriad y dull a hyrwyddir drwy'r canllawiau yw hyrwyddo dull amlasiantaethol o gefnogi llesiant plant, atal niwed a chefnogi adferiad wedi camdriniaeth. Mae'r canllawiau'n ceisio symud y tu hwnt i ddull rheoli risg, sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn newid ymddygiad sy'n peri 'risg' a thuag at ymarfer sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i blant unigol fel eu bod yn gallu teimlo'n ddiogel ac fel eu bod yn wydn os byddant yn wynebu risg o gam-drin.

Mae'r cynigion yn hyrwyddo atal a gweithio i gefnogi llesiant plant ar draws asiantaethau, a fydd o fudd i blant sy'n wynebu risg, y boblogaeth ehangach o blant yng Nghymru a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Mae'r cynigion yn hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn – ymarfer a fydd yn helpu plant sy'n agored i niwed, plant sy'n wynebu risg a phlant sy'n cael eu cam-drin i wireddu eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac i sicrhau gwell canlyniadau llesiant.

Ceir tystiolaeth bod cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn effeithio'n negyddol ar les unigolion wrth iddynt ddod yn oedolion. Mae'r cynigion yn cynnwys gwaith i nodi a chefnogi canlyniadau llesiant da i blant a phobl ifanc fel y gallant wireddu eu hawliau a'u bod yn llai tebygol o brofi ansefydlogrwydd iechyd, anweithgarwch economaidd, trais ac ansefydlogrwydd o ran tai pan fyddant yn oedolion.

### **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant**

Gwyddom y gall rhai plant fod yn arbennig o fregus oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn amrywio o ddiodef camdriniaeth lafar, feddyliol, rywiol a chorfforol, i blentyn yn cael ei fagu mewn cartref lle ceir trais domestig, camddefnyddio alcohol, rhieni yn gwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau. Fodd bynnag, mae modd i blant sydd heb gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod brofi camfanteisio rhywiol.

Mae adolygiad o dystiolaeth wedi dod i'r casgliad bod lleihau tlodi teuluol ar draws y boblogaeth yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar leihau graddau a difrifoldeb cam-drin ac esgeuluso plant yn ystod plentyndod, ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol cam-drin ym mywyd oedolion ac ar y costau economaidd ehangach.

Bydd y rhan fwyaf o blant sydd â phrofiad o ofal wedi bod yn destun ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn sgil camdriniaeth, esgeulustod a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod. Gallai hyn helpu i esbonio pam y mae nifer amghymesur o ddiodefwr camfanteisio'n rhywiol ar blant yn blant sydd â phrofiad o ofal, a pham y gall plant o'r fath fod yn arbennig o agored i niwed.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn arbennig o gudd, wedi'i gamddeall a heb gael ei adnabod yn ddigonol, yn achos rhai plant.

Mae tystiolaeth o waith ymchwil ac ymarfer yn awgrymu bod mwy o ferched yn cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant na bechgyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad yw bechgyn yn profi camfanteisio rhywiol. Mae'r sylw diweddar yn y cyfryngau i achosion uchel eu proffil o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi atgyfnerthu'r camsyniad mai dim ond merched sy'n destun camfanteisio rhywiol. Gall bechgyn brofi camfanteisio rhywiol ac mae hynny'n digwydd. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod y ddealltwriaeth neu'r dehongliad o gamdriniaeth yn erbyn bechgyn yn wael, bod y ffordd y mae'r camfanteisio rhywiol yn derchau yn arbennig o gymhleth, a bod stereoteipiau efallai'n effeithio ar allu gweithwyr proffesiynol i ystyried bod bechgyn yn agored i gamfanteisio rhywiol.

Canfu ymchwil fod phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn agored i gamfanteisio rhywiol yn sgil ffactorau sy'n cynnwys gorwarchodaeth, unigedd cymdeithasol a'r gymdeithas yn gwrthod eu cydnabod fel bodau rhywiol. Gall diffyg ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol o gamfanteisio'n rhywiol ar bobl ifanc ag anableddau dysgu hefyd gyfrannu at eu gwneud yn agored i niwed. Mae tystiolaeth o'r maes ymarfer yn awgrymu bod plant nad ydynt yn cyrraedd trothwy ar gyfer diagnosis ffurfiol o anabledd dysgu neu nad ydynt erioed wedi cael eu hasesu yn cael eu gorgynrychioli ymysg plant sy'n destun camfanteisio rhywiol. Mae plant sydd ag anabledd deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin mewn rhyw ffordd na phlant heb anabledd. O fewn y grŵp hwn, mae plant sydd ag anhwylderau ymddygiad yn arbennig o agored i niwed.

Daw diodefwr camfanteisio rhywiol o bob cefndir ethnig. Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu y gallai safbwyntiau ac arferion diwylliannol a chrefyddol, yn enwedig y rheini sy'n gweld gwerth ym morwyndod menyw neu heterorywioldeb dyn, atal diodefwr rhag datgelu gan eu bod yn ofni cael eu cosbi neu eu gwrthod gan eu teuluoedd. Gall hyn olygu nad yw plant o rai cymunedau yn cael eu hadnabod fel rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin na'u hamddiffyn rhag cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

O ran plant sy'n LHDT+, mae ymchwil yn awgrymu y gall diffyg gwybodaeth a chymorth priodol a theimladau o unigedd olygu bod bechgyn yn chwilio am gymunedau oedolion hoyw ar-lein ac all-lein, ac y gallai hyn beri risg iddynt. Mae'r un ymchwil yn awgrymu y gallai plant LHDT+ wynebu rhwystrau ychwanegol rhag ceisio cymorth os ydynt yn destun camfanteisio ac nad yw gweithwyr proffesiynol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r posibilrwydd o gamdriniaeth trwy gamfanteisio'n rhywiol ar gyfer plant LHDT+, yn enwedig o fewn perthynas lesbiâidd a thraws.

## **Y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio ein hasesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr**

Datblygwyd y canllawiau arfaethedig gyda Grŵp Cynghori amlasiantaethol, dan gadeiryddiaeth Dr Sophie Hallett, Prifysgol Caerdydd.

Yn 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru dri ymgynghoriad ar raddfa fach, a ddenodd gefnogaeth dda, gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi cael profiad o'r system amddiffyn plant, a rhai ohonynt wedi derbyn gofal a chymorth. Nod yr ymgynghoriad oedd casglu barn y plant a'r bobl ifanc am eu profiadau a'u disgwyliadau, er wyn gallu eu diogelu a diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae tystiolaeth o'r ymgynghori hwn wedi llywio'r cynigion yn uniongyrchol. Defnyddiwyd tystiolaeth ymchwil hefyd, sy'n cynnwys barn plant a phobl ifanc, wrth wneud penderfyniadau am gynnwys y canllawiau, a lle bo'n briodol mae dyfyniadau uniongyrchol gan bobl ifanc wedi'u cynnwys yn y canllawiau i ddangos beth sy'n bwysig iddynt a beth yw arferion da ac arferion gwael yn eu tyb hwy.

Roedd corff eang o dystiolaeth o ymchwil ac ymarfer hefyd yn llywio cynnwys y canllawiau, a chyfeirir yn uniongyrchol at y gwaith hwn yn y canllawiau.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 7 - Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 15 Gorffennaf a 7 Hydref 2019. Cyhoeddwyd fersiwn Gymraeg, fersiwn Hawdd ei Darllen a fersiwn Pob Ifanc o'r dogfennau ymgynghori.

Yn ogystal â bod ar gael i'r cyhoedd yn ehangach drwy dudalennau rhyngwrwyd Llywodraeth Cymru, dosbarthwyd yr ymgynghoriad i grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

### **Sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant**

Mae CCUHP yn cyflwyno'r egwyddor sylfaenol fod amddiffyn plant rhag niwed yn gyfrifoldeb i'r holl unigolion ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, a chydag oedolion a allai beri risg i blant. Mae erthyglau allweddol sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn yn cynnwys bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i:

- erthygl 12 : bod eu llais yn cael ei glywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- erthygl 13 : gwybodaeth;
- erthygl 19 : cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- erthygl 24 : yr iechyd gorau posibl;
- erthygl 28 : addysg;
- erthygl 29 : addysg sy'n cael ei chyfeirio at ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd meddyliol a chorfforol y plentyn;
- erthygl 33 : cael eu diogelu rhag cyffuriau peryglus;
- erthygl 34 : cael eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth rywiol a chamfanteisio rhywiol;
- erthygl 36 : cael eu cadw'n ddiogel rhag niwed i'w datblygiad;
- erthygl 39 : adferiad o drawma ac ailintegreiddio;

## **Erthygl 12: bod eu llais yn cael ei glywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt**

### **Erthygl 13: hawl i wybodaeth**

Cymerodd plant a phobl ifanc â phrofiad o ymyrraeth diogelu yn eu bywydau (gan gynnwys pobl ifanc a gefnogwyd oherwydd cam-drin rhywiol) ran mewn tri phrosiect ymgynghori ar raddfa fach, a gefnogwyd yn dda, a oedd wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru a'u trefnu gan Dynamix, y Rhwydwaith Maethu a'r NSPCC a Barnardo's Cymru (yn cydweithio). Roedd tystiolaeth o'r ymgynghoriadau yn nodi bod plant a phobl ifanc yn aml yn teimlo nad oedd eu lleisiau'n cael eu clywed yn y penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud amdanynt. Dywedodd plant a phobl ifanc hefyd nad oeddent bob amser yn gwybod pa wybodaeth oedd yn cael ei chofnodi amdanynt neu nad oedd gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed amdanynt yn cael eu rhannu â hwy mewn ffordd ystyrlon, neu ddim o gwbl. Nodwyd hefyd y gwerth yr oeddent yn ei roi ar y ffyrdd yr oedd rhai ymarferwyr wedi gwrando arnynt, wedi esbonio gwybodaeth wrthynt, ac wedi gwneud iddynt deimlo bod yr hyn a oedd o bwys iddynt hwy yn bwysig.

Mae'r cynigion yn nodi'r dystiolaeth hon, a thystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd dull ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar anghenion a hunaniaeth unigolyn. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi cyngor ar bwysigrwydd nodi (gyda'r plentyn) ymarferydd arweiniol/allweddol dibynadwy, sydd â'r amser a'r gallu i feithrin perthynas â'r plentyn ac sydd ar gael yn gyson ac yn hygyrch i'r plentyn; sy'n anfeirniadol, sydd ag empathi a sgiliau cyfathrebu da ac sy'n cyfleu diddordeb gwirioneddol yn y plentyn; yn cyfathrebu â'r plentyn ac yn esbonio penderfyniadau am ofal a chymorth y plentyn, sy'n cyflawni'r hyn y mae'n ei ddweud ac sy'n agored ac yn onest am gyfyngiadau proffesiynol y berthynas.

Ni fydd effeithiau cadarnhaol posibl y cynigion yn cael eu cyflawni heb gymorth i'w gweithredu er mwyn cefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i ddatblygu cynnig hyfforddiant ar-lein i gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth ddelio â materion diogelu pobl ifanc, fel camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r cynnig dysgu ar-lein yn cael ei ddatblygu ar sail tystiolaeth o ymchwil a wnaed gyda phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yng Nghymru. Mae nifer o adnoddau ymarfer i helpu ymarferwyr i ddeall a myfyrio ar ganfyddiadau'r ymchwil a'u harferion eu hunain eisoes ar gael ar dudalen prosiect Cadw'n Ddiogel Prifysgol Caerdydd. Cyfeirir at y gwaith hwn yn y canllawiau. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith ehangach i gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r canllawiau'n nodi bod rhaid i'r broses o gynllunio gofal a chymorth i blant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu sy'n wynebu risg o hynny sicrhau bod y partneriaid diogelu perthnasol yn cydweithio i gytuno ar gynllun gofal, cymorth ac amddiffyn sy'n canolbwyntio ar y plentyn i gefnogi canlyniadau llesiant plant unigol yn y ffordd orau.

**Erthygl 19: cael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod**

**Erthygl 34: cael eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth rywiol a chamfanteisio rhywiol**

**Erthygl 36: cael eu cadw'n ddiogel rhag niwed i'w datblygiad**

**Erthygl 39: adferiad o drawma ac ailintegreiddio**

Ffurf o gamdriniaeth rywiol yw camfanteisio'n rhywiol sy'n gallu achosi niwed sylweddol. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys cam-drin emosiynol, rhywiol a chorfforol yn aml. Bydd llawer o'r plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol hefyd wedi cael profiad o drawma a/neu gam-drin ynghynt yn ystod eu plentyndod. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod y plant hyn yn fwy tebygol o gael profiad o berthynas deuluol sydd wedi torri a phrofiadau gwael o fod mewn gofal. Yna maent yn agored i gam-drin a thrawma pellach drwy gamfanteisio rhywiol.

Bydd plant sydd wedi profi camfanteisio'n rhywiol wedi cael profiad amryfal o gamdriniaeth a thorri ymddiriedaeth. Gallent fod wedi cael profiadau negyddol yn y gorffennol o weithwyr proffesiynol, gallent fod yn gofidio y bydd datgelu cam-drin yn arwain at ddial gan eu camdrinwyr, a gallent deimlo cywilydd, gorbryder ac ofn ynglŷn â chael eu credu. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar y cyfleoedd i blant gydnabod mai cam-drin yw'r hyn sy'n digwydd iddynt a theimlo'n ddigon diogel i ddatgelu bod rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt neu bod hynny wedi digwydd yn y gorffennol.

Mae'r canllawiau arfaethedig yn cynnwys pennod (1) sy'n esbonio hyn ac yn darparu gwybodaeth ynghylch pa blant a allai fod yn arbennig o agored i gael eu cam-drin a'r angen i ymarferwyr allu nodi risg o gamdriniaeth a thrin datgeliadau o gam-drin. Mae'r cynnig hefyd yn nodi cyngor ar osgoi stereoteipio a beio dioddefwyr wrth ymateb i blant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol.

Mae Pennod 2 yn nodi rôl gwahanol wasanaethau cyhoeddus o ran cefnogi llesiant plant a phobl ifanc er mwyn meithrin gwydnwch a lleihau'r perygl o gamdriniaeth a chymryd camau i greu cymunedau mwy diogel i blant.

Mae Pennod 3 yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth nodi'r risg o gamdriniaeth, wrth ymateb ac wrth ddatblygu cynlluniau cymorth gofal ac amddiffyn sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer plant. Mae'r bennod hon yn cysylltu â dyletswyddau statudol presennol ac â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, sy'n hyrwyddo arferion diogelu sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mae Pennod 4 yn nodi bod y ffyrdd rydym yn ymateb i blant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol gael eu llywio gan ddealltwriaeth o gyd-destun llawn bywyd y plentyn. Mae cyrraedd sefyllfa o ymddiriedaeth gyda phlentyn sydd wedi cael ei siapio gan hanes o gael ei siomi neu ei niweidio gan oedolion yn gofyn am yr amser i ddatblygu perthynas â'r plentyn. Mae'r bennod yn ystyried tystiolaeth ar gyfer arfer effeithiol gyda phlant sy'n wynebu risg o gael neu eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol ac yn hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, sy'n

canolbwyntio ar y plentyn, wedi'i hategu gan berthynas ag ymarferydd arweiniol/allweddol dibynadwy, fel rhan o ymateb amlasiantaethol i anghenion plant a phobl ifanc unigol. Mae'r canllawiau'n nodi bod rhaid i bartneriaid diogelu perthnasol y Bwrdd Diogelu (o dan adran 139(3) o Ddeddf 2014) sicrhau bod ymarferwyr yn gyfarwydd â'r cyngor a ddarperir yn y canllawiau statudol hyn ar ddulliau ymarfer tystiolaethol gyda phlant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu sy'n wynebu risg o hynny.

Mae Pennod 5 o'r canllawiau yn ymdrin ag amharu ar gyflawnwyr a'u herlyn, a chefnogi plant sy'n ddiodefwrwr drwy'r broses gyfiawnder. Mae nodi troseddwr, amharu arnynt a'u herlyn yn rhan allweddol o'r gwaith o ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol. Er nad yw plismona wedi'i ddatganoli, mae pedwar llu heddlu Cymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn bartneriaid diogelu statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maent yn gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu plant yng Nghymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Rhaid i bartneriaid perthnasol y Bwrdd Diogelu (o dan adran 139(3) o Ddeddf 2014) ledled Cymru gyuno ar drefniadau rhanbarthol i ddwyn ynghyd asiantaethau mewn cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd i ystyried camfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig megis plant yn mynd ar goll; masnachu plant a chamfanteisio'n droseddol ar blant er mwyn:

- cydlynu asiantaethau partner i gefnogi ymatebion effeithiol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig;
- rhannu a chofnodi gwybodaeth am achosion unigol a chysylltiedig;
- cefnogi dysgu amlasiantaeth wrth ymateb i batrymau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn lleol ac yn rhanbarthol a materion diogelu cysylltiedig ac ymatebion statudol;
- cofnodi, cydlynu ac adolygu ymatebion i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig;
- nodi cyflawnwyr, cysylltiadau, lleoliadau a phatrymau troseddu a chefnogi tarfu ar gyflawnwyr;
- ystyried y ffyrdd y gall diogelu cyd-destunol lywio cynlluniau rhanbarthol i darfu ar gyflawnwyr ac atal camdriniaeth.

Mae'r canllawiau'n nodi y dylai'r trefniadau hyn fod yn ychwanegol at gynllunio gofal a chymorth ar gyfer plant unigol ac nad ydynt yn cymryd eu lle. Mae'r cynigion hefyd yn nodi cymorth i blant sy'n dioddef cam-drin a chamfanteisio rhywiol drwy achosion troseddol a'r broses erlyn. Yn 2018, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Strategaeth Dioddefwyr draws-lywodraethol sy'n nodi ymateb ar draws y system cyfiawnder troseddol i wella'r cymorth a gynigir i ddiodefwrwr trosedd ac sy'n ymgorffori camau gweithredu gan yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd.

Er mai prif ddiben y cynigion a nodir yn y canllawiau yw hyrwyddo mesurau sy'n cefnogi erthygl 19, dim ond rhai mesurau a nodir fel gofynion statudol. Bydd y potensial i effeithio'n gadarnhaol ar hawliau plant i fod yn ddiogel yn dibynnu ar weithredu'r dyletswyddau statudol hyn yn effeithiol a chyngor ar fesurau pellach a nodir yn y cynigion. Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar weithredu dyletswyddau diogelu presennol yn fwy effeithiol, mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar

blant a mathau cysylltiedig o gam-drin ac nid oes unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael eu trefnu i gefnogi'r broses weithredu. Yn y tymor canolig i'r tymor hirach, dylai'r newidiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol o ran lleihau'r galw am wasanaethau drwy gymorth ar gyfer llesiant da ac atal camdriniaeth. Yn y tymor byrrach mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu hyfforddiant i gefnogi'r gwaith o weithredu arferion mwy effeithiol. Mae'r cynigion hefyd yn ymwneud â gwaith ehangach i gefnogi llesiant plant, ar draws meysydd polisi ac asiantaethau ac mae effaith y canllawiau yn rhannol ddibynnol ar gynnydd o ran gweithredu newid mewn gwasanaethau ehangach i blant a phobl ifanc.

### **Erthygl 28: addysg**

### **Erthygl 29: addysg sy'n cael ei chyfeirio at ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd meddyliol a chorfforol y plentyn**

Mae cam-drin plant yn rhywiol wedi bod yn gysylltiedig â lleihad cyffredin mewn ymwneud ag addysg a chyrhaeddiad yn yr ysgol ac mewn addysg uwch/bellach. Mewn rhai achosion unigol, fodd bynnag, fe'i cysylltwyd hefyd â gwell cyrhaeddiad. Yn yr achosion hyn, mae'n ymddangos bod ymwneud ag addysg yn gweithredu fel strategaeth ymdopi â'r gamdriniaeth.

Yn aml, mae profiadau addysgol plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol yn adlewyrchu patrwm o driwantiaeth, adroddiadau ohonynt yn mynd ar goll o'r ysgol, yn cael eu gwahardd dros dro neu'n barhaol o'r ysgol, a chanlyniadau addysgol gwael.

Gall bod yn gysylltiedig ag addysg weithredu mewn ffordd ataliol gan ei fod yn galluogi ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd ac yncryfhau hunanhyder. Gallai ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill fod ag angen cymorth a chynghor o ran sut sydd orau i gynnwys a chynnal ymgysylltiad neu ailymgysylltiad plentyn ag addysg. Canfu ymgynghoriad ar raddfa fach a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod plant y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol yn gweld yr ysgol yn lle cadarnhaol a chefnogol.

Mae'r canllawiau'n nodi rôl addysg o ran cefnogi llesiant plant i leihau'r perygl o gael eu cam-drin, manteision dull ysgol gyfan ac Addysg Perthynas a Rhywioldeb wrth atal CSE a rôl addysg wrth ddiogelu plant a chefnogi adferiad. Dylai pob lleoliad addysg, gan gynnwys lleoliadau addysg amgen, megis unedau cyfeirio disgyblion, ei chymryd yn ganiataol fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem y mae angen mynd i'r afael â hi.

### **Erthygl 24 : yr iechyd gorau posibl; erthygl 33 : eu diogelu rhag cyffuriau peryglus**

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant corfforol a meddygol. Gall iechyd a llesiant gwael hefyd fod yn ffactorau wrth wneud plant yn agored i gam-drin neu ail achosion o gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol. Gall plant sy'n cael cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol neu sy'n wynebu risg o hynny ddod i gysylltiad ag amrediad o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys meddygon teulu a'r gwasanaeth nyrsio ysgol.

Mae'n bwysig fod gan y gwasanaethau hyn brosesau ar waith i gofnodi ac adrodd am bryderon diogelu yn ymwneud â phlant. Mae'r canllawiau arfaethedig hefyd yn cynghori y dylai'r gwaith o gynllunio gofal a chymorth gynnwys cytundeb ar rôl gwasanaethau iechyd o ran diwallu anghenion y plentyn. Bydd gwaith i fynd i'r afael ag iechyd a llesiant corfforol a meddyliol plant, gan gynnwys unrhyw anghenion camddefnyddio sylweddau, yn elfen bwysig o feithrin llesiant y plentyn a lleihau'r cam-drin sy'n parhau neu'n aiddigwydd drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae cysylltiad rhwng camddefnyddio alcohol a sylweddau, hanes o gam-drin rhywiol a risg o gamfanteisio rhywiol. Gallai camddefnyddio alcohol a sylweddau roi plant mewn sefyllfa o risg lle gallent fod yn anniogel; gallai troseddwyr eu defnyddio fel cyfrwng i fagu perthynas amhriodol â phlant a'u cam-drin a gallent fod yn rhan o'r berthynas o gyfnewid a rheolaeth sy'n bresennol mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae darparu'r amrywiaeth o wasanaethau addysg, atal a thrin i blant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau yn rhan allweddol o'r gwaith o ddiogelu a hyrwyddo iechyd a llesiant plant.

Mae'r canllawiau'n nodi na ddylid ystyried diogelu plant yn weithgaredd ar wahân i hyrwyddo eu llesiant, ac y dylid ei roi yn yr un cyd-destun o wasanaethau ehangach i blant sydd ag anghenion gofal a chymorth. Felly mae'n hollbwysig fod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn parhau i gydweithio'n dda â gwasanaethau cymdeithasol. Bydd addysgu plant am alcohol a chyffuriau a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hygyrch o ansawdd da i blant sy'n defnyddio alcohol a chyffuriau'n cyfrannu at y gwaith o atal camfanteisio'n rhywiol ar blant ac o nodi'n gynnar y plant hynny sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu sy'n wynebu risg o hynny.

Mae'r canllawiau'n cynghori y dylai'r holl wasanaethau sy'n darparu gwybodaeth a/neu gymorth i blant a theuluoedd sicrhau bod ymarferwyr a gwirfoddolwyr:

- Yn ymwybodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant;
- Yn deall berth yw ymarfer a lywir gan drawma;
- Yn ymwybodol o arwyddion corfforol, emosiynol, materol ac ymddygiadol camfanteisio'n rhywiol ar blant;
- Yn gwybod pryd a sut i roi gwybod am blentyn sy'n wynebu risg.

Mae'r cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Diogelu Plant sicrhau bod hyfforddiant ar gamfanteisio rhywiol sy'n berthnasol ac yn briodol i rôl ymarferydd ar gael ac yn cael ei hyrwyddo ar draws ei ranbarth. Byddai hyn yn cynnwys ymarferwyr iechyd ac ymarferwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

## **Casgliad**

Bwriad polisi cyffredinol y cynigion yw hybu llesiant plant er mwyn eu gwneud yn llai agored i gael eu cam-drin, nodi camau gweithredu i atal camdriniaeth, nodi gofynion



mewn perthynas ag amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a chefnogi adferiad plant sy'n cael eu cam-drin. Mae camfanteisio rhywiol yn effeithio'n negyddol ar fywyd plentyn ac ar ei allu i wireddu ei hawliau a mwynhau canlyniadau llesiant da.

Bydd y cynigion, os cânt eu gweithredu'n effeithiol, yn helpu plant i wireddu eu hawliau ac atal materion, sy'n cael effaith negyddol ar blant yn gwireddu eu hawliau. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant i gefnogi gweithredu. Cyhoeddwyd Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 ac mae'n cynnwys matrices ar nifer y plant sy'n mynd ar goll, nifer y plant sy'n destun cyfarfod strategaeth oherwydd camfanteisio'n rhywiol ar blant, y nifer oherwydd camfanteisio'n droseddol ar blant a'r nifer oherwydd masnachu plant. Yn y tymor byrrach dylai'r cynigion arwain at adnabod plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol yn well a byddem yn disgwyl gweld y niferoedd yn cynyddu. Yn y tymor canolig i'r tymor hwy dylai'r cynigion effeithio o ran lleihau nifer y plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol. Bydd data ynghylch cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol.

Mae gan y chwe Bwrdd Diogelu Plant yng Nghymru ddyletswydd statudol i gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol. Byddwn yn gofyn i'r Byrddau gasglu gwybodaeth gan bartneriaid diogelu i ddangos bod y gofynion a nodir yn y cynigion yn cael eu gweithredu a bod hyn wedi'i gynnwys fel rhan o'r broses adrodd flynyddol.

Maes o law, bydd swyddogion yn cyflwyno cyngor i Weinidogion i gynnig bod ymchwil yn cael ei gynnal gyda phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr, rheolwyr ac arweinwyr ar draws asiantaethau yn 2024, 3 blynedd ar ôl cyhoeddi'r cynigion. Bydd hyn yn ystyried pa effaith y mae'r canllawiau wedi'i chael ar ymarfer a chanlyniadau i blant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu sy'n wynebu risg o hynny.